

Ymwelydd y Gymdeithas

Proffil y Rôl

Mae Ymwelwyr y Gymdeithas yn cynnig cymorth emosiynol a gwybodaeth i bobl sy'n byw gyda Chlefyd Motor Niwron (MND) ac i'r rhai y mae'r cyflwr yn effeithio arnynt yn eu cymunedau. Gall gwybodaeth gynnwys sut i gael gafael ar gymorth neu sut i ddefnyddio gwasanaethau lleol.

Tasgau a gweithgareddau

- Cynnig cymorth i rywun sy'n byw gyda/neu wedi'i effeithio gan MND mewn ffordd gynhwysol – gall hyn fod wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein, yn dibynnu ar ddewisiadau personol
- Cyfeirio a darparu gwybodaeth berthnasol sy'n galluogi rhywun i gael gafael ar y cymorth priodol sydd ar gael iddynt - gan gynnwys drwy'r [Gymdeithas MND](#)
- Pan fo'n bosibl, mynychu sesiynau datblygu lleol gyda gwirfoddolwyr a staff eraill, megis cyfarfodydd cefnogi cyfoedion a digwyddiadau datblygu eraill
- Trin data, cymryd nodiadau a chynhyrchu adroddiadau syml gan ddefnyddio ein systemau ar-lein diogel i gyfathrebu diweddariadau cyffredinol gyda thimau lleol – darperir hyfforddiant
- Cadw at bolisiau a gweithdrefnau Cymdeithas MND, gan gynnwys GDPR a Diogelu
- Gall y rôl hon olygu teithio y telir amdano o fewn ardal y cytunwyd arni, yn dibynnu ar y gweithgareddau lleol.
- Mae'r ymrwymiad amser yn amrywio ac yn dibynnu ar wahanol ffactorau gan gynnwys capasiti unigol a'r galw am y math hwn o gymorth mewn ardal leol benodol ar adeg benodol

Mae'r rôl hon yn cael ei recriwtio drwy ein proses Recriwtio Mwy Diogel, sy'n golygu ei bod yn cynnwys cyfweiliad, geirda gan ddau ganolwr a phroses adolygu. Mae angen gwiriad DBS neu Access NI hefyd oherwydd natur y rôl, fel y bo'n briodol.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cwblhau proses gynefino strwythuredig a phroses gynefino, gan gynnwys cwblhau e-ddysgu a llwybr hyfforddiant ystafell ddosbarth sy'n benodol i'r rôl.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael cymorth a datblygiad lleol parhaus gan eu Cydlynnydd Cymorth Cymunedol (CSC) dynodedig – a *elwid gynt yn 'ASC'*.

Gwybodaeth am Ymwelwyr ein Cymdeithas

Ar draws y Gymdeithas MND, mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein Gwerthoedd.

Rydyn ni'n **Un Tim Cryf**

- Rydyn ni'n datblygu ac yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol gydag eraill
- Rydyn ni'n gweithio'n effeithiol gyda'n gilydd o fewn ein ffiniau, ac yn gofyn am gymorth pan fo angen
- Rydyn ni'n dda am wrando ac yn defnyddio ein sgiliau cyfathrebu gweithredol i gael effaith

Mae gennym **Syniadau Mawr**

- Rydyn ni'n ymgymryd â dysgu a datblygu priodol i'n helpu yn ein rôl
- Rydyn ni'n defnyddio sgiliau TGCh sylfaenol i ymgymryd â'n rolau - e.e. Zoom/Microsoft Teams, e-bost, Office 365
- Rydyn ni'n defnyddio ein gwybodaeth a'n sgiliau i lywio drwy systemau a darparu gwybodaeth gywir

Rydyn ni'n **Benderfynol**

- Rydyn ni'n barod i ddysgu am MND a'i effaith ar bobl a'u teuluoedd/ffrindiau
- Rydyn ni'n sicrhau ein bod yn cymryd camau i sicrhau ein diogelwch ein hunain a diogelwch pobl eraill
- Rydyn ni'n deall yr angen am gyfrinachedd a phwysigrwydd diogelu data



Rydyn ni'n gwneud **Y Gorau o Bob Diwrnod**

- Rydyn ni'n hyrwyddo **Gweledigaeth a Phwrpas** Cymdeithas MND bob amser
- Rydyn ni'n rhannu ein barn a'n syniadau ar y ffordd orau o gefnogi pobl y mae MND yn effeithio arnynt
- Rydyn ni bob amser yn barchus ac yn garedig